



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Beth rydyn ni'n ei wneud gyda eich cwyn am gynghorwyr lleol

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am ymddygiad cynghorydd lleol.'

Chwefror 2024

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae'r ddogfen hon yn hawdd ei deall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n adnabod i'ch helpu.



Mae geiriau mewn **print glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae'n dweud beth mae'r geiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 19**.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.ombwdsmon.cymru

E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru

Ffôn: 0300 790 0203



Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn fersiwn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

Cynnwys

Am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	4
Am y daflen wybodaeth hon	5
Cwrdd â'ch anghenion.....	6
Cwynion newydd.....	7
Os na allwn ni ymchwilio i'ch cwyn	10
Os byddwn ni'n penderfynu ymchwilio i'ch cwyn	11
Canlyniadau'r ymchwiliad	13
Os ydych chi'n anhapus â'n penderfyniad.....	16
Cysylltu â ni.....	18
Geiriau anodd	19

Am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



Ni ydy swyddfa **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Rydyn ni'n delio â chwynion am:



- **Wasanaethau cyhoeddus**

Gwasanaethau cyhoeddus ydy'r gwasanaethau mae'r Llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Er enghraifft: cynghorau lleol, y GIG, landlordiaid cofrestredig.




- Cynghorwyr lleol yn torri'r **Côd Ymddygiad**. Mae cynghorwyr lleol yn bobl sy'n cael eu dewis i redeg cyngor.

Mae **Côd Ymddygiad** yn rheolau a safonau mae'n rhaid i rywun eu dilyn yn eu gwaith.



Ein bwriad ydy gwella **gwasanaethau cyhoeddus**.

Am y daflen wybodaeth hon



Mae'r daflen wybodaeth hon yn dweud beth fydd yn digwydd pan fyddwch chi'n cwyno wrthyn ni am gynghorwyr.


Gallwch gwyno am gynghorwyr o:



- Awdurdodau lleol
- Cynghorau cymuned a thref
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Panelau heddlu a throsedd yng Nghymru



Mae'n rhaid i bob cynghorydd yn y sefydliadau hyn ddilyn eu **Cod Ymddygiad**.



Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn yn y daflen wybodaeth – [Gwneud cwyn am gynghorwyr lleol](#).

Cwrdd â'ch anghenion



Rydyn ni eisiau ei gwneud hi'n hawdd i bawb ddefnyddio ein gwasanaethau.



Gallwn eich helpu i ddod o hyd i fudiad **eiriolaeth** os oes arnoch chi angen un.

Gall mudiad **eiriolaeth** eich helpu i siarad drosoch chi eich hun. A gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed.



Byddwn yn siarad â chi yn y ffordd sydd orau ar eich cyfer chi. Dywedwch wrthyn ni beth ydy eich anghenion.



[Mae mwy o wybodaeth am y ffordd y gallwn ni eich cefnogi chi ar ein gwefan yn y fan hyn.](#)

Cwynion newydd



Bydd ein Tîm **Côd Ymddygiad** yn edrych ar bob cwyn newydd. Byddan nhw'n edrych i weld a ddylen ni **ymchwilio** i'ch cwyn.



Mae **ymchwiliad** yn meddwl chwilio i mewn i'r ffeithiau i weld beth ddigwyddodd. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn os ydyn ni'n meddwl y gallai'r broblem fod yn un ddifrifol.



Byddwn yn gadael i chi wybod ein bod wedi derbyn eich cwyn.



Byddwn yn defnyddio prawf dau gam i edrych ar eich cwyn.

Cam 1



Byddwn yn edrych ar yr wybodaeth gefnogi a'r profion anfonoch chi. Fe edrychwn ni ydy o'n awgrymu bod y **Côd Ymddygiad** wedi cael ei dorri.

Cam 2



Byddwn yn edrych ydy'r wybodaeth yn ddigon difrifol i'w **ymchwilio**. Ac ai **ymchwiliad** fyddai orau ar gyfer y cyhoedd.

Byddwn yn meddwl am bethau fel:



- Ydy cynghorydd wedi defnyddio ei safle er ei les ei hun mewn ffordd annheg.



- Ydy cynghorydd wedi camddefnyddio'r hyder sydd gan bobl ynddo.



- Ydy cynghorydd wedi trin rhywun yn annheg oherwydd pwy ydyw. Neu oherwydd y lle mae'n dod ohono.



- Fuasai **ymchwiliad** yn helpu'r cyhoedd gadw eu hyder yn y cynghorwyr.



Os byddwn ni'n mynd i **ymchwilio** i'ch cwyn, byddwn ni'n dweud wrthy'ch chi o fewn chwe wythnos.



Os na allwn ni ddweud wrthy'ch chi o fewn chwe wythnos, byddwn yn gadael i chi wybod.

Os na allwn ni ymchwilio i'ch cwyn



Os ydyn ni'n penderfynu peidio ag **ymchwilio** i'ch cwyn, byddwn ni'n ysgrifennu atoch i ddweud pam.

Byddwn hefyd yn anfon copi o'r llythyr at:



- Y cynghorydd a gafodd gwyn yn ei erbyn
- Y Swyddog Monitro
- Y Clerc, os yw'r cynghorydd yn perthyn i Gyngor Cymuned a Thref

Os byddwn ni'n penderfynu ymchwilio i'ch cwyn



Byddwn ni'n ysgrifennu atoch i ddweud wrthy ch chi ein bod am **ymchwilio** i'ch cwyn.



Byddwn ni hefyd yn ysgrifennu at y bobl eraill sydd â chysylltiad â'r cwyn.



Bydd **Swyddog Ymchwilio** yn chwilio i mewn i'r gŵyn.



Bydd y **Swyddog Ymchwilio** fel arfer yn chwilio am brawf pellach a gwybodaeth gefnogi. Er enghraifft, dogfennau a datganiadau tystion.



Mae pob **ymchwiliad** yn wahanol. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen i ni gyfweld â phobl.



Byddwn ni'n gofyn i chi beidio â rhannu unrhyw fanylion am yr **ymchwiliad**. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod yr **ymchwiliad** yn deg.



Efallai y bydd cynghorwyr yn torri'r **Côd Ymddygiad** os byddan nhw'n rhannu gwybodaeth am:

- gŵyn neu
- **ymchwiliad**.



Pan fyddwn ni wedi cael yr holl wybodaeth rydyn ni ei hangen, fe fyddwn ni'n ysgrifennu:

- adroddiad
- neu gyhoeddiad.



Bydd y rhain yn dweud beth daethon ni i wybod.

Canlyniadau'r ymchwiliad

Os byddwn ni'n penderfynu nad ydy'r **Côd Ymddygiad** wedi cael ei dorri, byddwn ni'n:



- cau'r **ymchwiliad**



- ac yn ysgrifennu at bawb sy'n rhan o'r ymchwiliad i ddweud pam.



Gallwn ni anfon y gŵyn at y Swyddog Monitro. Efallai byddan nhw'n penderfynu gwneud **ymchwiliad** lleol.

Os byddwn ni'n penderfynu y gallai'r gŵyn fod yn iawn, efallai byddwn ni'n:



- ei hanfon at **Banel Dyfarnu Cymru**.

Mae **Panel Dyfarnu Cymru** yn llys arbennig sy'n delio â'r cynghorau a'r awdurdodau cenedlaethol sy'n torri'r Côt Ymddygiad.



- neu'n ei hanfon at **Bwyllgor Safonau Lleol**.

Mae **Pwyllgor Safonau Lleol** yn grŵp ffurfiol sy'n cael ei roi ar waith yn lleol gan gynghorau. Fe allan nhw ddelio â chynghorwyr sy'n torri'r Côt Ymddygiad.



Gall y grwpiau hyn benderfynu ydy'r **Côt Ymddygiad** wedi cael ei dorri.



Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi beth daethon ni i wybod. A pha benderfyniadau wnaethon ni.



Efallai y byddwn ni'n anfon adroddiad byr atoch chi. Byddwn ni hefyd yn anfon copi o'r adroddiad at y cynghorydd y cafodd cwyn ei wneud amdano.



Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gadw'n gyfrinachol nes bydd penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud gan:

- **Banel Dyfarnu Cymru**
- neu **Bwyllgor Safonau Lleol.**

Os ydych chi'n anhapus â'n penderfyniad



Unwaith rydyn ni wedi gwneud ein penderfyniad, byddwn ni'n cau achos y gŵyn.



Fyddwn ni ddim yn agor yr achos eto am eich bod chi'n anghytuno â'n penderfyniad yn unig.



Gallwch ysgrifennu aton ni o fewn 24 diwrnod gwaith i ofyn i ni edrych eto.

Gallwch ofyn i ni edrych ar eich cwyn eto:



- os gallwch ddangos nad ydyn ni wedi meddwl am bob darn o wybodaeth a gawson ni gennych chi




- neu mae gennych chi wybodaeth newydd neu brawf o rywbeth i'w roi i ni.

Bydd ein Swyddog Adolygu yn penderfynu:



- oes rheswm i edrych ar eich cwyn eto



- oes angen i ni wneud rhywbeth pellach.

Cysylltu â ni



Rydyn ni'n deall y gall rhai cwynion eich cynhyrfu neu achosi straen.



Rydyn ni'n deall y gallech fod yn teimlo'n gryf ynglŷn â'ch cwyn.



Mae gennych chi'r hawl i gael eich clywed, eich deall a'ch parchu.



Byddwch yn gwrtais ac yn garedig tuag at ein staff pan fyddwch chi'n cysylltu â ni.

Geiriau anodd

Côd Ymddygiad

Mae Côd Ymddygiad yn rheolau a safonau mae'n rhaid i rywun eu dilyn yn eu gwaith.

Eiriolaeth

Gall mudiad eiriolaeth eich helpu i siarad drosoch chi eich hun. A gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed.

Gwasanaethau cyhoeddus

Gwasanaethau cyhoeddus ydy'r gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn talu amdany'n nhw. Er enghraifft: cynghorau lleol, y GIG, landlordiaid cofrestredig.

Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn llys arbennig sy'n delio â'r cynghorau a'r awdurdodau cenedlaethol sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

Pwyllgor Safonau Lleol

Mae Pwyllgor Safonau Lleol yn grŵp ffurfiol sy'n cael ei roi ar waith yn lleol gan gynghorau. Fe allan nhw ddelio â chynghorwyr sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

Ymchwilio neu ymchwiliad

Mae ymchwiliad yn meddwl chwilio i mewn i ffeithiau i weld beth ddigwyddodd. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn os ydyn ni'n meddwl y gallai'r broblem fod yn un ddifrifol.

